# Bywyd Gwyllt yn eich Ward – Llanymddyfri



Mae **Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin** wedi creu'r proffil hwn i dynnu sylw at rai o'r bywyd gwyllt, cynefinoedd a safleoedd pwysig yn eich ardal leol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cael ei dathlu, ac yn haeddiannol felly, am yr amrywiaeth yn ei hamgylchedd naturiol, o'r ucheldiroedd yng ngogledd-ddwyrain y sir i'n harfordir godidog.

Mae pob ward yn cyfrannu at y rhwydwaith cyfoethog ac amrywiol o gynefinoedd bywyd gwyllt sydd yn y sir, boed hynny'n goetiroedd, yn laswelltiroedd, yn berthi, yn afonydd neu'n erddi.

Mae bylchau o hyd yn ein gwybodaeth am amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin a'r bywyd gwyllt y mae'n ei gynnal. Er bod gennym gyfoeth o ddata, nid yw rhai rhywogaethau a darnau o gynefinoedd arbennig wedi cael eu cofnodi na'u mapio o hyd. Mae bob amser ragor i'w ddarganfod.

Mae brithwaith cynefinoedd Llanymddyfri yn ffurfio **rhwydwaith ecolegol**. Os yw'r cynefinoedd hyn yn cael eu rheoli a'u cysylltu'n dda, a'u bod yn ddigon helaeth, byddant yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau ac yn helpu i greu amgylchedd naturiol **gwydn**. Mae amgylchedd naturiol **gwydn** yn cynnal bywyd gwyllt ac yn darparu ystod o **wasanaethau ecosystem**, e.e. cynhyrchion amaethyddol, pryfed peillio, pren, dŵr yfed, rheoli llifogydd ac erydiad pridd, storio carbon, hamdden ac ysbrydoliaeth. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/3l1pNXT

Mae bywyd gwyllt a'n hamgylchedd naturiol yn adlewyrchu diwylliant lleol a gweithgarwch dynol yn y gorffennol. Rydym yn gweld hyn ym mhatrymau caeau a pherthi ein tirweddau amaethyddol, ac mewn ardaloedd a oedd gynt yn ddiwydiannol iawn lle mae cynefinoedd newydd yn datblygu ar dir diffaith heddiw. Yn ogystal, mae enwau ein ffermydd, ein tai a'n strydoedd yn rhoi ambell awgrym ynghylch hanes ein hamgylchedd naturiol.

Rydym yn gobeithio y bydd y proffil hwn yn ddiddorol ac y bydd yn eich annog o bosibl i archwilio eich ardal leol a chofnodi'r hyn rydych yn ei weld. Mae dolenni yn y proffil a fydd yn eich helpu i gael rhagor o wybodaeth ac i weithredu'n lleol.

Diolch i bawb yn ward Llanymddyfri sydd eisoes wedi anfon gwybodaeth a lluniau atom. Gellir diweddaru'r proffiliau hyn felly daliwch ati i anfon gwybodaeth atom am y 'Bywyd Gwyllt yn eich Ward'.

**Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy brosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru**

**Cynhyrchwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin**

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk**


## Ward Llanymddyfri

Mae ward Llanymddyfri yn cwmpasu pen gogledd-ddwyreiniol pellaf y sir. Yma, mae Afon Tywi yn llifo i'r de trwy ei dyffryn o gronfa ddŵr Llyn Brianne. Gwelir enghraifft nodedig o goetir derw uwchdir yng Ngwarchodfa Natur Dinas, ac mae hyn yn cyferbynnu â'r dirwedd agored sy'n codi'n gyflym i'r dwyrain, gyda choetir planhigfa goniffer ar y pen uchaf sy'n lloches erbyn hyn i'r wiwer goch brin yn y Canolbarth. Mae'r clytwaith o gynefinoedd Ffridd, sy'n cofnodi'r ffin rhwng caeau amgaeëdig a bryniau agored, gan gynnwys prysgwydd, rhedyn, rhostir a llaciau, yn gallu bod yn gynefinoedd pwysig.

Yn nhref Llanymddyfri caiff Afon Tywi gwmni ei hisafonydd, Brân a Gwydderig. Yn nyffryn Brân gwelir olion cyn barcdir ag ynddo gasgliad pwysig o hen goed a chennau prin. I'r dwyrain o Afon Brân mae'r tir yn codi'n gyflym eto i goedwig Crychan, coed coniffer yn bennaf ond gyda choed derw, onn a chyll brodorol o'r goedwig hynafol wreiddiol yn cyferbynnu yma a thraw. Ceir llwybrau ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau sy'n cynnig golygfeydd eang draw i Fynyddoedd y Cambrian. Mae'r ffordd porthmyn a ddefnyddid ar un adeg i yrru gwartheg trwy fynyddoedd anghysbell y Canolbarth ar y ffordd i Lundain i'w gweld yma.



**Rhywogaethau arbennig yn eich ward...**
Mae'r holl rywogaethau yn eich ward yn bwysig mewn rhyw ffordd ac yn helpu i wneud eich amgylchedd naturiol yn arbennig. Mae Llywodraeth Cymru yn rhestru rhai o'r rhywogaethau a gofnodwyd yn Llanymddyfri fel rhai pwysig iawn ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru - felly mae eich ardal yn bwysig. Dyma rai o uchafbwyntiau eich ward.

| | |
|---|---|
|  | Mae gwenoliaid duon yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau yn yr awyr – hyd yn oed wrth gysgu, bwyta ac yfed – a dim ond i nythu maent yn glanio. Maent yn hoffi nythu mewn adeiladau, a hynny mewn tyllau bach mewn toeon. Gwyliwch nhw yn yr haf yn hedfan dros y toeon ac yn galw ar ei gilydd drwy eu sgrechiadau uchel. |
|  | Mae niferoedd dyfrgwn wedi cynyddu ers gweld dirywiad difrifol, a bellach mae cofnod ohonynt ar afonydd a chynefinoedd cysylltiedig yn eich ward. Heddiw, damweiniau traffig ar y ffyrdd yw un o brif achosion eu marwolaeth, a gall diffyg safleoedd bridio addas fod yn rhwystr i fridio llwyddiannus, felly maent yn dal i fod mewn sefyllfa fregus. |
|  | Teigr yr Ardd yw un o'r 735 rhywogaeth o wyfynod sydd wedi'u cofnodi yn eich ward. Mae'n hedfan yn y nos ym mis Gorffennaf-Awst a gellir ei weld mewn gerddi. Mae'r Siani Flewog yn bwydo ar ddanadl poethion, dail tafol, a llawer o blanhigion gardd. Mae'n dioddef o'r 'tacluso' sy'n digwydd yng nghefn gwlad. |
|  | Aderyn coetir derw yw Telor y Coed, yn enwedig mewn ardaloedd ucheldirol. Mae'n trydar (sain sy'n swnio fel ceiniog yn troelli ar arwyneb) oddi fry yn y canopi ond yn creu ei nyth mewn prysgwydd isel. Fel teloriaid eraill, ymwelwyr haf sy'n bwyta pryfed yw teloriaid y coed. |
|  | Mae gan eich ward gofnodion da ar gyfer Clychau'r Gog, Garlleg Gwyllt a Blodau'r Gwynt - maent oll yn blanhigion sy'n arwyddion o goetiroedd hynafol - coetiroedd y gwyddys eu bod wedi bodoli ers 1600. Yn aml, mae ganddynt gymunedau cymhleth o blanhigion, ffyngau, pryfed a micro-organebau eraill sy'n cefnogi amrywiaeth o adar a mamaliaid. |

## Sut y gallwch helpu?

Os ydym am ddiogelu'r bywyd gwyllt yn Llanymddyfri, gall y bobl sy'n byw yma wneud gwahaniaeth go iawn. Mae llawer o grwpiau ac unigolion yn cofnodi eu bywyd gwyllt lleol ac ardaloedd rheoli ar gyfer Natur yn y sir.

➲ Mae 25 rhywogaeth o famaliaid wedi'u cofnodi yn eich ward .

➲ Ydych chi am wybod rhagor am rywogaethau a chynefinoedd arbennig y sir? Beth am fynd i dudalennau gwe bioamrywiaeth y Cyngor a'r adran am Gynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn y sir https://bit.ly/3rECiea

➲ Darganfyddwch beth sydd yn eich ardal - edrychwch yn agosach ar yr hyn sydd o'ch cwmpas - rhowch wybod i ni. Mae'n anhygoel!

➲ Rheolwch lecynnau yn eich ysgol, pentref a'ch gerddi lleol ar gyfer bywyd gwyllt - gwnewch le ar gyfer byd natur.

➲ Ymunwch â grŵp cadwraeth lleol - rhowch o'ch amser i wirfoddoli ar gyfer byd natur.


I gael amrywiaeth o syniadau, ewch i: https://bit.ly/3l6NkXt

**Dolenni defnyddiol:**

- Tudalennau gwe bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin: https://bit.ly/3bDosTK
- Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin: https://bit.ly/3oBFQlu
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: https://bit.ly/3bCVWSm



## Cofnodion rhywogaethau yn y ward hon a gedwir gan Ganolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru - Rhagfyr 2020





## Helpwch i gofnodi'r rhywogaethau sydd yn eich ardal

Mae Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC) yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am fywyd gwyllt y sir a gall unrhyw un gyfrannu. Mae rhywogaethau cyffredin yn aml yn cael eu tangofnodi fel nad oes angen i chi fod yn arbenigwr.

Mae gan WWBIC lawer o gofnodion biolegol ar gyfer Llanymddyfri (gweler y map uchod) ond mae 3+ sgwariau 1 cilometr gyda 0 cofnod, a 16+ gyda llai na 10 cofnod rhywogaeth. Allwch chi helpu i lenwi'r bylchau hyn? Beth am gofnodi'r rhywogaethau rydych yn eu gweld yn eich gardd neu tra byddwch allan am dro? Mae sawl ffordd y gallwch gofnodi gyda WWBIC, drwy e-bost, ar wefan WWBIC neu ddefnyddio Ap LERC Cymru. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yma: https://www.wwbic.org.uk/wildlife-recording/

Mae llawer o wefannau a all helpu i adnabod rhywogaethau. Os ydych ar y cyfryngau cymdeithasol beth am ymuno â Chofnodi Biolegol Gorllewin Cymru (www.facebook.com/groups/westwalesbiorecording/)

## Safleoedd arbennig yn eich Ward




Mae'r map hwn yn tynnu sylw at y safleoedd arbennig ar gyfer bywyd gwyllt yn eich ward a hefyd, lleoedd i fynd am dro ac ymweld â nhw yn Llanymddyfri.

➲ Yn Sir Gaerfyrddin mae gennym rwydwaith o safleoedd 'dynodedig' sy'n cael eu diogelu ar lefel genedlaethol neu ryngwladol - dyma'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd penodol yn Sir Gaerfyrddin neu hyd yn oed yn y DU a/neu leoedd lle mae rhywogaethau pwysig yn byw. Y safleoedd hyn yw conglfeini gwaith cadwraeth, gan ddiogelu craidd ein treftadaeth naturiol.

Hoffech chi wybod mwy? Ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru - https://bit.ly/3qFgdee

**Sylwer: Nid oes gan y safleoedd gwarchodedig hyn fynediad cyhoeddus o reidrwydd oni bai bod ganddynt Hawl Dramwy Gyhoeddus yn mynd trwyddynt neu eu bod ar Dir Mynediad Agored (gweler y dudalen nesaf).**

➲ Yn lleol mae gennym hefyd warchodfeydd natur â chynefinoedd a rhywogaethau pwysig sy'n cael eu rheoli gan ystod o sefydliadau. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/3t9m4Kt

➲ Mae gan eich ward rwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r llwybrau troed hyn yn agored i bawb eu mwynhau ac yn ffordd wych i chi archwilio eich ardal leol a'r cynefinoedd a'r bywyd gwyllt sydd ynddi. Mae gan y sir hefyd ardaloedd o 'Dir Mynediad Agored'.

➲Mae 'Tir Mynediad Agored', o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000), yn cynnwys tir agored (mynyddoedd a rhostiroedd) a 'thir comin cofrestredig'. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd o 'dir penodedig' lle mae rheolwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu mynediad am ddim. Yn yr ardaloedd hyn cewch gerdded lle bynnag y dymunwch, ac yn y coedwigoedd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru cewch hefyd fynd ar gefn ceffyl neu feicio ar draciau'r goedwig, ond byddwch yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/30AZLkC

➲ Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sy'n agored i bob math o draffig. Mae dros 2400km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus ledled Sir Gaerfyrddin sy'n darparu gwahanol lefelau o fynediad cyhoeddus oddi ar y ffordd, o gerdded i farchogaeth a beicio. Mae gan bob un ei chymeriad unigryw ei hun, efallai bod gennych eisoes ffefryn. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/3vhupoq

➲ Mae'r mapiau yn y proffil hwn yn fapiau Arolwg Ordnans - maent yn ffordd wych o'ch helpu i ddod o hyd i Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Mynediad Agored lleol naill ai trwy fapiau papur neu drwy'r ap ffôn. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/2Wi52Mo

➲ Mae gan y sir hefyd nifer o lwybrau beicio dynodedig, ac mae llawer ohonynt yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a rhwydwaith Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin. Mae dros 100km o lwybrau beicio dynodedig yn y sir. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/3gQopVC a https://bit.ly/2OLDLkh

➲Tra byddwch allan am dro - cadwch at y Côd Cefn Gwlad bob amser - https://bit.ly/30yOGRm

**Llwybrau cerdded/safleoedd lleol i'w harchwilio**

Efallai bod gennych eisoes eich hoff lwybr cerdded yn eich ardal leol, lle byddwch yn profi'r newidiadau tymhorol trwy gydol y flwyddyn. Efallai eich bod yn cerdded yr un llwybr yn rheolaidd, ond ni fydd bywyd gwyllt yn gwneud hynny. Felly cadwch eich llygaid ar agor, mae rhywbeth newydd i'w weld neu brofi bob amser. Beth am gerdded ffordd arall? Efallai y byddwch yn gweld rhywbeth gwahanol gyda'r un golygfeydd, ond mewn ffordd wahanol.

Dywedwch wrthym am eich hoff lwybr cerdded neu'ch hoff le - dyma rai syniadau.

**Cyffredinol**

➲ Mae pedwar grŵp **'Cerddwyr'** lleol yn Sir Gaerfyrddin sy'n archwilio'r sir. I gael rhagor o wybodaeth am grwpiau 'Cerddwyr' yn Sir Gaerfyrddin, ewch i: https://bit.ly/3r6xZZn

➲ Mae Cerdded Iach Sir Gaerfyrddin yn fenter sy'n ceisio annog pobl o bob oed a gallu i fanteisio ar y buddion corfforol, cymdeithasol ac iechyd meddwl a gynigir trwy gerdded mewn grwpiau o bobl o'r un meddylfryd. Mae'n gwneud hyn trwy sefydlu grwpiau cerdded o amgylch y sir. Rhagor o fanylion: https://bit.ly/3cnmCHu

➲ Mae gwefan **Darganfod Sir Gâr** yn hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio lleol: https://bit.ly/3cpxowX

**Rhai awgrymiadau lleol**

- Taith gerdded Lein Calon Cymru
- Coedwig Crychan

**Eich Ward -** Dyma rai o'r lluniau yr ydych wedi'u cyflwyno i ni